Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
## Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Y Friog**
**Friog**
**Fairbourne**
**Gwynedd**
**LL38 2RQ**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Y Friog wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn mis Hydref 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r Ysgol y Friog oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Rhoddir sylw dyledus i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng nghynlluniau'r ysgol gyfan er mwyn codi safonau. Mae'r cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion y dalgylch a thu hwnt i gydgynllunio ar sail y fframwaith bellach yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn cydgynllunio ac wedi mapio'r medrau'n llwyddiannus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Mae ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg o safon uchel ac yn dangos cynnydd amlwg dros gyfnod byr o amser. Mae'r disgyblion yn defnyddio geirfa sy'n briodol i'r dasg wrth ysgrifennu'n annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd. O ganlyniad, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos cynnydd cadarn.

Mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn dda, yn enwedig wrth gaffael gwybodaeth ar y rhyngrwyd. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol er mwyn canfod prif negeseuon y testun. Gall y rhan fwyaf ysgrifennu darnau'n annibynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau gan ddefnyddio eu medrau ysgrifennu at wahanol ddibenion yn llwyddiannus. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn atalnodi yn gyson gan baragraffu eu gwaith, a sillafu yn gywir yn y ddwy iaith. Mae mwyafrif o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn ail ddrafftio a diwygio eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnos Sylfaen yn dangos dealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Maent yn defnyddio ystod o fedrau mesur yn briodol gan ddewis yr unedau safonol cywir. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn darllen graddfa ar thermomedr wrth gymharu tywydd yng Nghymru a Lesotho.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm. Maent yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol iawn mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth gynnal arolwg ar dwristiaeth yr ardal a chyfrifo cost yswiriant yn dilyn llifogydd yn yr ardal leol.

**Argymhelliad 2: Codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae safon gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae cynlluniau hir dymor yr athrawon yn nodi cyfleoedd blaenllaw i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh yn rheolaidd mewn ystod o weithgareddau traws cwricwlaidd. Bellach, mae datblygu medrau TGCh yn rhan greiddiol o'r profiadau dysgu.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd hyderus o'r ystod eang o adnoddau TGCh sydd ar gael iddynt. Mae offer rheoli a llechi symudol yn sbarduno'r dysgu ac yn atgyfnerthu'r tasgau yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cynhyrchu gwaith trin data i safon arbennig a dangosant gryn aeddfedrwydd wrth drafod y dulliau mwyaf priodol i gasglu, dehongli a chyflwyno data. Maent yn llwyddo i gyfuno amrywiaeth o wybodaeth a chyfryngau wrth greu a datblygu eu syniadau ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn hyderus ac yn annibynnol i ddewis gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau. Mae llawer yn gwirio dilysrwydd y ffynonellau hyn, gan ddeall bod data o ansawdd gwael yn cynhyrchu canlyniadau annibynadwy. Mae gallu'r rhan fwyaf o'r disgyblion i gydweithio er mwyn datrys problemau ac i ddysgu am reoli, dilyniannu ac amcangyfrif yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio taenlenni bas data yn hyderus yn eu gwaith ac mae safonau prosesu geiriau llawer yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth iddynt gynllunio taflenni gwybodaeth a chyflwyniadau ar ailgylchu.

Caiff cynnydd ym medrau TGCh disgyblion cyfnod allweddol 2 eu holrhain yn ofalus gan yr athrawon. Mae hyn yn sicrhau dilyniant yn y profiadau a gyflwynir i ddisgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod athrawon yn herio pob disgybl, ac yn arbennig y disgyblion mwyaf galluog**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol sy'n bodloni anghenion bron pob disgybl yn llwyddiannus. Mae pwyslais clir ar gyflwyno profiadau dysgu ymarferol ar draws yr ysgol sy'n ennyn chwilfrydedd ac awydd gwirioneddol ymysg y disgyblion i ddysgu. Mae'r berthynas waith dda sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol, lle caiff disgyblion eu herio yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau, cymryd perchnogaeth dros eu dysgu a'u herio i weithio tuag at gyrraedd eu targedau personol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau pwrpasol i adnabod disgyblion mwy galluog a darparu yn fuddiol ar eu cyfer. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth i dargedu

disgyblion gallu uwch mewn mathemateg ac iaith yn benodol, er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Mae'r pennaeth yn cydweithio'n agos ag ysgolion y clwstwr er mwyn darparu profiadau ymestynnol i ddisgyblion mwy abl a thalentog. Mae hyn yn cychwyn cael effaith dda ar safonau'r disgyblion. Mae'r bartneriaeth hon hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i alluogi staff i rannu arferion da mewn addysgu, safoni a chynllunio.

Mae'r system olrhain cynnydd newydd a ddefnyddir yn galluogi'r athrawon i fonitro cynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol ac i flaenoriaethu rhaglenni ymyrraeth priodol ar gyfer unigolion a grwpiau. Mae llywodraethwr penodol hefyd yn monitro'r ddarpariaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog. Mae hyn yn help i sicrhau bod athrawon yn cynllunio eu gwersi'n fanwl ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch.

**Argymhelliad 4: Cryfhau'r systemau asesu ac asesu ar gyfer dysgu**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer asesu, adrodd a chofnodi yn effeithiol ac mae'r athrawon bellach yn fwy ymwybodol o anghenion y disgyblion. Darperir cyfleoedd cyson i alluogi disgyblion i drafod eu gwaith yn rheolaidd yn ystod y gwersi ac mae athrawon a'r disgyblion yn cytuno ar feini prawf llwyddiant addas. Mae'r adborth a roddir iddynt yn dangos yn glir i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith ymhellach. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth dda o'r cod marcio ac maent yn ei ddefnyddio'n effeithiol wrth asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymateb i'r sylwadau hyn ac maent yn mireinio eu gwaith yn ôl yr angen.

Mae trefn gyson o osod targedau personol i ddisgyblion ar gyfer iaith a mathemateg sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau. Mae llawer o'r targedau yn heriol ac mae'r disgyblion yn trafod eu cynnydd ac yn cyfrannu i'r broses o osod targedau dilynol. Mae hunanasesu ac asesu cymheiriaid bellach yn rhan amlwg o waith y dosbarth. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth gytuno ar feini prawf clir cyn asesu eu gwaith.

Yn dilyn cydweithio agos ag ysgolion y clwstwr, mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i greu proffiliau asesu pwrpasol er mwyn dilysu safonau disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol yn dda. Yn dilyn derbyn hyfforddiant perthnasol, cydweithio'n llwyddiannus gyda nifer o ysgolion a rhannu arfer dda, mae arweinwyr yr ysgol yn cymryd rôl fwy strategol yng ngwaith yr ysgol. Bellach, mae yma ethos o gydweithio llwyddiannus ymysg rhanddeiliaid yr ysgol. Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol ac mae eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

Mae'r cynllun gweithredu ôl arolygiad yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi deilliannau mesuradwy a meintiol a chamau gweithredu defnyddiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol sy'n seiliedig ar ganfyddiadau prosesau monitro a hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn ddogfen weithredol sy'n cael ei monitro'n rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol. Trwy ymweliadau cyson, mae ganddynt dystiolaeth uniongyrchol am berfformiad yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol iawn at osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod proses hunanarfarnu'r ysgol yn fwy arfarnol a bod monitro yn ffocysu'n fwy penodol ar godi safonau**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae dogfen hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr ac arfarnol sy'n rhoi darlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod eang o ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth uniongyrchol, ynghyd â dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad.

Mae'r athrawon a llywodraethwyr yn arsylwi gwersi, yn craffu ar lyfrau yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau cynhwysfawr o'r canfyddiadau. Mae'r adroddiadau hyn yn arfarnol ac yn rhoi sylw cynyddol i agweddau penodol. Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer nodi blaenoriaethau gwella. Mae deilliannau monitro yn cael eu rhannu'n llwyddiannus mewn cyfarfodydd staff a llywodraethwyr yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff ac arweinwyr yr ysgol ran weithredol yn y broses. Mae trefniadau llwyddiannus iawn wedi sefydlu er mwyn canfod barn disgyblion, rhieni ac aelodau'r corff llywodraethol.

Mae adolygiadau cyson i fesur cynnydd o ran gweithredu amcanion y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Enghraifft dda o effaith hyn yw'r cynnydd sydd i'w weld yn safonau'r medrau. Caiff y cynllun gweithredu ôl arolygiad a chynllun datblygu'r ysgol eu monitro'n llwyddiannus iawn gan arweinwyr yr ysgol.

**Argymhelliad 7: Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol bellach yn cymryd rôl fwy gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r is-bwyllgorau a'r pwyllgor llawn yn cyfarfod yn rheolaidd ac maent bellach yn derbyn cofnodion o'r cyfarfodydd blaenorol ynghyd â'r agenda o flaen llaw. Mae hyn yn galluogi'r llywodraethwyr i weithredu yn fwy strategol. Ers yr arolygiad craidd, mae'r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr gan y pennaeth a'r ymgynghorydd her i ddatblygu eu medrau cwestiynu i'w galluogi i herio'r ysgol yn fwy effeithiol. Mae gan bob llywodraethwr gyfrifoldeb am agweddau penodol ar waith yr ysgol ac maent yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn llwyddiannus.

Trwy'r ymweliadau monitro cyson, a chymryd rhan mewn 'teithiau dysgu', mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o safonau yn ogystal â bywyd a gwaith yr ysgol. Mae eu hadroddiadau ysgrifenedig yn arfarnol ac yn nodi sylwadau adeiladol yn ogystal â'r camau sydd angen eu datblygu ymhellach.  Caiff yr adroddiadau hyn eu rhannu gyda gweddill y llywodraethwyr mewn cyfarfodydd llawn.

Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o berfformiad yr ysgol dros gyfnod.  Maent yn derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth am gynnydd y disgyblion a pherfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.  Mae'r llywodraethwyr yn fwy hyderus wrth holi cwestiynau ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i herio'r a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.  Bellach, maent yn gweithredu'n n fwy strategol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.